Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

**CYFARFOD GWEITHREDOL Y GANGEN**
**6 Gorffennaf 2022**

**COFNODION**

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-Lywydd)
Delyth Jewell AS
Alun Davies AS
Rhianon Passmore AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen
Enfys Roberts, Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-22-01(**DOGFEN 1**)

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3. **MATERION SY’N CODI O’R COFNODION**

Roedd y materion sy’n codi o’r Cofnodion wedi'u gweithredu.

4. **ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU DIWEDDAR**

**Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol**

- *70fed Seminar San Steffan (**DOGFEN 2**)*
  *14 - 18 Mawrth*

  *Roedd Sam Rowlands AS a Natasha Asghar AS yn bresennol yn y Seminar a dosbarthwyd eu hadroddiad.*

- *51fed Cynhadledd Flynyddol BIMR (**DOGFENNAU 3**)*
  *Ynys Manaw 23-25 Mawrth*

  Roedd y Cadeirydd yn ogystal â Natasha Asghar AS yn bresennol yn y gynhadledd ranbarthol.

  Roedd Rhianon Passmore AS yn bresennol yn rhithwir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfod Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad ac wedi’i hethol yn Is-Gadeirydd Rhanbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad, a chafodd ei llongyfarch gan yr Aelodau ar hynny.

  Yn anffodus, bu’n rhaid i David Rees AS, Is-Lywydd y Gangen, dynnu yn ôl o'r gynhadledd er mwyn cyflawni dyletswyddau Cyfarfod Llawn y Senedd.

  Roedd y Gynhadledd yn canolbwyntio ar y thema “C*raffu Effeithiol*”. Yn anarferol, nid oedd unrhyw siaradwyr allanol, ond yn hytrach cafodd y cynrychiolwyr a oedd yn bresennol gyfle chwarae rhan ryngweithiol iawn yn y trafodion ac i drafod arferion o fewn eu deddfwrfeydd eu hunain.

  Roedd adroddiad cryno a deunyddiau eraill yn ymwneud â'r gynhadledd wedi cael eu dosbarthu.

- *Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Canol Blwyddyn y CPA*
  *Assam, India*
  *9 Ebrill*

  Roedd yr Ysgrifennydd Rhanbarthol Jon Davies wedi dosbarthu crynodeb o gyfarfod y Pwyllgor Gweithredol Rhyngwladol hwn a oedd yn cynnwys trafodaethau ar y materion a ganlyn:

  - Gwella cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y CPC ac ar y Pwyllgor Gweithredol;
  - Recriwtio Ysgrifennydd Cyffredinol yn y dyfodol.
  - Statws CPA yn y DU, a bod
  - Trinidad a Tobago wedi cael ei gadarnhau fel cynhalwyr Senedd Ieuenctid nesaf y Gymanwlad ddiwedd 2022.

  Nododd y Cadeirydd y byddai'r Senedd, unwaith eto, yn gobeithio enwebu Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru i gynrychioli ein Cangen, a chefnogwyd hyn.

- *Ymweliad gan Senedd Daleithiol Western Cape (**DOGFEN 4**)*
  *3 Mai*

  Nododd y Cadeirydd yr ymweliad cadarnhaol hwn, yr oedd sawl Aelod o'r Gangen yn rhan ohono. Roedd y cynrychiolwyr o'r Western Cape dan arweiniad y Llefarydd yn ddiolchgar iawn ac wedi siarad yn frwd am y rhaglen a gawsant yn y Senedd, a oedd yn cynnwys ystod o sesiynau o Senedd Ieuenctid Cymru i waith y Pwyllgor Cyllid. Roedd nodyn byr ynghylch yr ymweliad wedi cael ei ddosbarthu.

- *Cyfarfod Rhithwir Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*

  *6 Mehefin*

  Nid oedd unrhyw Aelodau o'r Gangen yn bresennol ar gyfer y cyfarfod hwn, yr oedd yr Ysgrifennydd Dros Dro wedi'i arsylwi.

  Y prif bwyntiau trafod oedd Prosiect Seneddau Cynhwysol y BIMR, cynllunio'r gyllideb, a chynhadledd nesaf Seneddwragedd Rhanbarthol y Gymanwlad.

  <u>Noder:</u> Yn dilyn y cyfarfod, dywedodd Helen Haywood (Ysgrifenyddiaeth

y BIMR) ei bod wedi anfon manylion Cyfarfodydd BIMR Seneddwragedd y Gymanwlad at bob un o'n cynrychiolwyr Seneddwragedd y Gymanwlad ac yn y dyfodol, ni waeth pa drefniadau cylchdroi presennol sydd ar waith yn y Senedd, gall y tri Aelod fod yn bresennol, a byddai hynny'n well na pheidio â chael yr un Aelod etholedig yn bresennol, fel y digwyddodd yn y cyfarfod hwn.

- *Cyfarfod BIMR Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau*
  *Cyflwyniad: Mynediad i Gronfa Swyddfeydd Etholedig*
  *Rhithwir (dan arweiniad Senedd yr Alban)*
  *13 Mehefin*

  Roedd Mark Isherwood AS, fel ein Hyrwyddwr Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau, yn bresennol yn y cyfarfod hwn, dan arweiniad Senedd yr Alban, a oedd yn canolbwyntio ar Gronfeydd Mynediad i Seneddwyr ag Anableddau.

- *Sesiwn Grŵp Gweithgor Argyfwng Hinsawdd BIMR (***DOGFEN 5***)*
  *Rhithwir (dan arweiniad Senedd yr Alban)*
  *27 Mehefin*

  Nid oedd Llyr Gruffudd AS, gwaetha'r modd, yn gallu dod i'r sesiwn hon. Fodd bynnag, roedd Clerc ei Bwyllgor a swyddogion Ymchwil yn bresennol i roi adborth. Roedd y sesiwn (a gynhaliwyd eto gan Senedd yr Alban) yn canolbwyntio ar *Offeryn Datblygu Cynaliadwy ac Asesu Effaith* Holyrood.

  Mae nodyn o'r sesiwn wedi'i ddosbarthu.

- *Ymweliad gan Ms Sonia Hornerey AS (De Cymru Newydd)*
  *28 Mehefin*

  Roedd yr ymweliad hwn gan Sonia Hornerey AS o Gynulliad Deddfwriaethol De Cymru Newydd wedi cynnwys y cyfle i gwrdd â Rhianon Passmore AS, Delyth Jewell AS, Natasha Asghar AS a Joyce Watson AS i drafod cynrychiolaeth y Senedd o fenywod a gwaith Seneddwragedd y Gymanwlad.

- *Ymweliad astudio gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*
  *Cynulliad Taleithiol Balochistan (Pacistan)*
  *5 Gorffennaf*

  Cynhaliwyd yr ymweliad hwn, a gymerodd fisoedd lawer i'w drefnu a'i aildrefnu, y diwrnod blaenorol o'r diwedd, ac roedd yn cynnwys sesiynau

gyda thîm clercio Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn ogystal â gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Roedd yn braf bod nifer o Aelodau’r Gangen wedi gallu cyfarfod â’r cynrychiolwyr dros ginio.

5. **BLAENGYNLLUNIO**

**Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

- *Ymweliad Gan Mr Adam Searle, Aelod o'r Cyngor Deddfwriaethol, Senedd De Cymru Newydd*
  *12 Gorffennaf*

  Byddai rhaglen Mr Searle, yr wythnos ganlynol, yn cynnwys cyfarfodydd gyda Llŷr Gruffudd AS a John Griffiths AS, ar ôl iddo fynegi diddordeb yng ngwaith pwyllgorau'r Senedd y maent yn eu cadeirio.

- *Sesiwn Hyfforddi Cennad Arsylwi Etholiad BIMR*
  *Rhithwir*
  *14-15 Gorffennaf*

  Roedd Alun Davies AS, Delyth Jewell AS a’r Dirprwy Lywydd David Rees AS wedi mynegi diddordeb mewn mynychu'r Sesiwn Hyfforddi hon yr wythnos ganlynol, a nododd y Cadeirydd pa mor falch yr oedd fod y tri o'n Haelodau wedi cael eu derbyn i fynychu'r sesiynau hyn.

  Nodyn: Yn anffodus, nid oedd David Rees AS yn gallu bod yn bresennol oherwydd gwrthdaro â dyletswyddau cadeirio’r Senedd.

- *65ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (CPC)*
  *Halifax, Nova Scotia,*
  *Canada 20-26 Awst*

  Nododd y Cadeirydd fod ein cynrychiolwyr olaf ar gyfer Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad eleni bellach wedi'u dewis, a dewiswyd yr Aelodau a ganlyn:

**Sarah Murphy AS**
**Laura Jones AS**
**Huw Irranca-Davies AS**

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Sarah, Laura a Huw yn y Gynhadledd ac edrychodd y Gangen ymlaen at ddysgu o'u profiadau maes o law.

Nodyn: Wedi hynny bu'n rhaid i Laura Jones AS dynnu'n ôl o'r gynhadledd.

- *CPA y DU – Gweithdy Masnach Cychwynnol ar gyfer Tiriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Deddfwrfeydd Datganoledig.*
  *San Steffan*
  *13-15 Medi*

  Gwahoddwyd y Gangen i enwebu hyd at ddau Aelod i fynychu'r Gweithdy hwn. Roedd Llefarwyr Masnach y Pleidiau ac Aelodau *Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig* wedi cael blaenoriaeth ar gyfer y cyfle hwn er efallai y bydd rhagor o gyfleoedd i Aelodau eraill fynychu hefyd.

- *Ymweliad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus St Helena*
  *21 Medi (i'w gadarnhau)*

  Bydd yr ymweliad dros dro hwn yn cael ei gadarnhau dros doriad yr haf a byddai Aelodau'r Gangen yn cael eu hysbysu os bydd yn mynd yn ei flaen.

  Nodyn: Ers hynny mae'r ymweliad hwn wedi cael ei aildrefnu a bydd yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2023.

- *Cynhadledd BIMR Seneddwragedd Rhanbarthol y Gymanwlad Gibraltar*
  *4-7 Hydref*

  Roedd y dyddiadau bellach wedi'u cadarnhau ar gyfer cynhadledd nesaf BIMR Seneddwragedd Rhanbarthol y Gymanwlad a fyddai'n cael ei chynnal gan Gangen Gibraltar.

  Gwahoddwyd y Senedd i anfon hyd at dri chynrychiolydd yn ogystal â Swyddog cysylltiedig.

Byddai Rhianon Passmore AS, Delyth Jewell AS a Natasha Asghar AS, fel Aelodau Pwyllgor Llywio'r Gangen, yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y cyfleoedd hyn yn y lle cyntaf.

<u>Nodyn:</u> Cynrychiolwyr olaf y Gangen oedd Rhianon Passmore AS, Heledd Fychan AS a Buffy Williams AS.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

**Cynnig y Senedd i gynnal cynhadledd BIMR yn y dyfodol**

Nododd y Cadeirydd, gan mai nôl yn 2014 oedd y tro diwethaf i'r Senedd gynnal Cynhadledd BIMR lawn, ei bod bellach yn amserol dechrau trafodaethau ynghylch cynnal cynhadledd arall yn ddiweddarach yn ystod tymor y Senedd hon.

Roedd cefnogaeth aruthrol gan yr Aelodau a oedd yn bresennol y dylai'r Senedd nawr ystyried cyflwyno cais i gynnal cynhadledd BIMR naill ai yn 2024 neu 2025.

Eglurodd y Cadeirydd fod y Cynadleddau Rhanbarthol yn gweithredu yn ôl trefniant "*y rhai sy'n cynnal y digwyddiad sy'n talu*" a bod cost sylweddol a llawer o waith yn gysylltiedig â'u cynnal. Felly, byddai angen codi hyn gyda'r Llywydd (Llywydd y Gangen) a Manon Antoniazzi (Ysgrifennydd y Gangen a CEX/Clerc) er mwyn sicrhau y gellid darparu'r cyllid a'r adnoddau gofynnol i ni gynnal cynhadledd lwyddiannus.

7. **DYDDIAD CYFARFOD YN Y DYFODOL:**

Mis Hydref 2022 (I'w gadarnhau)

**DIWEDD**